



**Cyngor Dinas a Sir
Abertawe**

**Adroddiad Blynyddol
y Gymraeg
2016 -2017**

CYNNWYS

1.	Cyflwyniad a Chefndir	3
2.	Trosolwg o 2016-2017	3
3.	Addysg Cyfrwng Cymraeg.....	4
4.	Gweithredu'r Safonau	5
5.	Rheoli a Gweinyddu'r Cynllun	8
6.	Prif Ffrydio'r Gymraeg.....	9
7.	Asesiad o Effaith	111
8.	ATODIADAU	13

1. Cyflwyniad a Chefnidir

Yn dilyn Deddf yr Iaith Gymraeg (1993), cafodd darpariaeth gwasanaethau Cymraeg ei diffinio gan gynlluniau Cymraeg unigol y cytunodd cyrff cyhoeddus unigol a Bwrdd yr Iaith Gymraeg arnynt. Bellach, mae hyn wedi'i ddisodli gan Safonau'r Gymraeg a ddiffinnir yn genedlaethol, ac mae Comisiynydd y Gymraeg yn gallu rhoi detholiad ohonynt ar waith mewn cyrff cyhoeddus (ac, ymhen amser, rhai cyrff preifat).

Diffiniwyd y fframwaith ar gyfer gorfodi'r safonau ym **Mesur y Gymraeg (Cymru) (2011)**, gyda manylion y safonau eu hunain yn **Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015**. Diffinnir y safonau sy'n berthnasol i'r awdurdod mewn hysbysiad cydymffurfio a gyflwynwyd gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ym mis Medi 2015, yn weithredol o fis Mawrth 2016. Yr hysbysiad hwn, ynghyd ag ambell ddiwygiad y cytunwyd arno gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, yw'r ddogfen gyfredol sy'n llywodraethu ein cydymffurfriad.

Dyma'r Adroddiad Blynyddol cyntaf ers i'r safonau ddod i rym. Mae'n cynnig trosolwg o'r prif ddigwyddiadau dros gyfnod o 12 mis o 31 Mawrth 2017, ac arfarniad o sefyllfa'r awdurdod mewn perthynas â gweithredu'r safonau.

Cyniga'r atodiadau fanylion parthed rhoi'r safonau ar waith yn yn Abertawe'n benodol, yn ogystal â gwybodaeth am y Gymraeg yn yr ardal.

2. Trosolwg o 2016-2017

Y prif ddigwyddiad yn ystod y cyfnod sy'n destun yr adroddiad hwn oedd y ffaith y gweithredwyd y safonau, fel a nodwyd yn yr hysbysiad cydymffurfio a gyflwynwyd i'r awdurdod.¹

Roedd gan y mwyafrif o'r rhain **Ddyddiad Cydymffurfio** (effeithiol) sef 30/03/2016, gydag ychydig yn weithredol o 30/09/2017. Ar 30/03/2016, dirymwyd ein Cynllun Iaith Gymraeg presennol yn ei gyfanrwydd.

Wrth i'r Dyddiad Cydymffurfio nesáu, gofynnwyd am eglurhad gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg (SCG) a chyflwynwyd 10 apêl gennym yn erbyn y safonau a dderbyniwyd. O ganlyniad i'r apeliadau, gwnaethpwyd addasiadau i chwe safon. Mae'r holl addasiadau gweithredol wedi'u cynnwys yn yr atodiadau.

Yn ogystal â rhoi camau ar waith er mwyn bodloni'r safonau newydd, un o brif dargedau eleni oedd cynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg a oedd eisoes yn bodoli. Ymysg y tasgau eraill oedd cyflwyno'r safonau i adrannau ac unigolion er mwyn sicrhau ymateb cynhwysfawr a chyson iddynt. At y diben hwn, rhoddwyd cyfres o gyflwyniadau i gynrychiolwyr o bob maes o waith yr awdurdod.

¹Mewn gwirionedd, bu hynny ddau ddiwrnod cyn i'r cyfnod adrodd dynodedig ddechrau. O ganlyniad, rydym yn cynnwys y cyfnod 30/03/2016 i 31/03/2017 yn yr adroddiad hwn.

Ers y Dyddiad Cydymffurfio, grŵp Hyrwyddwyr y Gymraeg sydd wedi ymgymryd â rhaeadru gwybodaeth o amgylch yr awdurdod yn bennaf. Ceir manylion ychwanegol am y grŵp hwn yn rhan 5c yr adroddiad hwn.

Yn hytrach na cheisio gorfodi un arddull o weithio ar draws holl adrannau'r awdurdod, anogwyd pob adran i ymgymryd â'r safonau'n seiliedig ar eu profiad a'u gwybodaeth eu hunain, er y cynigwyd arweiniad, awgrymiadau a chyfieithiadau safonol yn ganolog.

Cydnabyddir, am sawl rheswm, nad yw'r safonau wedi cael eu rhoi ar waith yn llwyr ac mae meysydd o weithredu nad ydynt eto yn cydymffurfio'n llawn â hwy. Fodd bynnag, yn bron pob achos gwelwyd camau tuag at gydymffurfio ac mae'r gwaith i adeiladu ar y llwyddiannau hyn yn parhau. Ar ben hynny, bu profiad ymarferol o rai mentrau yn sbarduno pobl i ail-feddwl er mwyn datrys problemau.

Yn ystod y flwyddyn, derbyniwyd nifer bach o gwynion ynghylch gweithrediad y safonau. Ceir manylion y cwynion hyn yn Atodiad C.

3. *Mwy na Geiriau : More than just Words*

Er bod safonau'r Gymraeg ar waith ar draws pob un o feysydd gweithrediad yr awdurdod, mae llawer o waith Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei bennu ymhellach trwy *Mwy na Geiriau/More than just Word* – fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn ieched, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.

Cyflwynodd y fenter hon gysyniad y 'Cynnig Gweithredol' – nodi angen/dewis iaith wrth gysylltu am y tro cyntaf – a darparu gwasanaethau Cymraeg o'r dechrau i'r diwedd, lle bynnag y bo modd; rhywbeth sydd wedi'i gynnwys a'i ddatblygu yn y safonau.

O fewn Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol, ystyrir mai'r fframwaith hwn yw'r brif ffynhonnell gweithgareddau sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Caiff cynnydd yn erbyn cynllun gweithredu'r fframwaith ei gofnodi ac adroddir amdano ar wahân yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

4. *Addysg Gymraeg*

Er bod datblygu'r Gymraeg yn yr ardal a thu hwnt yn y dyfodol yn gysylltiedig mewn ffordd sylfaenol ag Addysg Gymraeg, ymdrinnir â'r agwedd hon yn benodol yng Nghynllun Addysg Gymraeg y cyngor.

Mae 11 ysgol gynradd Gymraeg bellach sy'n bwydo dwy ysgol uwchradd – Ysgol Gyfun Gŵyr ac Ysgol Gyfun Bryn Tawe. Ar hyn o bryd, mae niferoedd y disgyblion sy'n mynychu sefydliadau addysg Gymraeg yn y tri grŵp oedran, a chanrannau cyffredinol pob grŵp oedran y mae'r ffigurau hyn yn eu cynrychioli, fel a ganlyn:

Cofrestrau ysgolion	Cyfanswm Ffrydiau Cymraeg a Saesneg	Nifer y disgyblion mewn darpariaeth Gymraeg	Canran y disgyblion mewn ffrwd Gymraeg
Cynradd	22266	3263	14.7%
Bl. 7-11	11928	1338	11.2%
Bl. 12/13 ²	1430	307	21.5%
Cyfanswm	35624	4908 ³	13.8%

Yn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf, enillodd dros 80% o ddisgyblion raddau A*-C, ac mae'r niferoedd sy'n dewis y pwnc wedi cynyddu'n gyson i 254 yn 2016.

Yn TGAU Cymraeg Ail Iaith (cwrs llawn), mae dros 90% yn ennill graddau A*-C, ac mae'r niferoedd sy'n dewis y pwnc wedi cynyddu yn y pedair blynedd ers 2012 o 239 o ymgeiswyr (9.2%) i 426 o ymgeiswyr (17.7%) yn 2016.

5. Gweithredu'r safonau

Er i'r drafft terfynol o safonau gael ei dderbyn gan yr awdurdod ym mis Mawrth 2015, cyhoeddwyd cynigion cychwynnol mor hir yn ôl â 2012. Defnyddiwyd y gyfres fwyaf diweddar fel sail wrth gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy gydol y cyfnod hwn, gan ddylanwadu ar faterion corfforaethol yn ôl yr angen. Wrth dderbyn diwygiadau, addasiadau neu eglurhad ynghylch y cynigion, addaswyd y cyngor a'r arweiniad yn briodol.

Er mai bwriad yr awdurdod yw cydymffurfio â'r safonau cymaint â phosib ar draws yr holl feysydd, rydym wedi blaenoriaethu cyflwyno gwasanaethau fel rhan fwyaf gweladwy ein gwaith.

Er y dechreuodd y gwaith cyfieithu ymhell cyn y Dyddiad Cydymffurfio, mae'r holl waith sydd angen ei wneud er mwyn diweddarau dogfennaeth gyfredol, ynghyd â'r angen i gynnal gwasanaeth o ddydd i ddydd, yn golygu bod hyn wedi bod yn dasg barhaus drwy gydol y cyfnod adrodd. Blaenoriaethwyd gwaith er mwyn sicrhau argaeledd y dogfennau a oedd yn cael eu defnyddio'n rheolaidd a/neu a oedd â therfynau amser llym yn gyntaf oll, gyda thasgau a oedd yn llai o flaenoriaeth yn aros am gais penodol a/neu ddiweddariad yn y dyfodol agos cyn iddynt gael eu cyfieithu.

Yn ystod y cyfnod adrodd, recriwtiwyd aelodau o staff ychwanegol i'r tîm cyfieithu er mwyn gallu ymdopi â'r cynnydd yn y llwyth gwaith.

Mae'r safonau'n dod dan 5 prif faes, sef Cyflwyno Gwasanaethau, Llundio Polisïau, Gweithredu, Hyrwyddo a Chadw Cofnodion.

5a Safonau Cyflwyno Gwasanaethau

Wrth i'r Dyddiad Cydymffurfio nesáu, cafodd yr holl adrannau eu hannog i sicrhau bod nodweddion sylfaenol megis llofnodion e-byst, cyfarchion dros y

²Nid yw'r ffigurau'n cynnwys presenoldeb mewn coleg chweched dosbarth, e.e. Coleg Gŵyr Abertawe

³Mae hyn yn cymharu â 3284 yn 2007, sef cynnydd o 1642 o fyfyrwyr, ac wedi codi o 9.8% o'r cyfanswm

ffôn, negeseuon ar beiriannau ateb ac eitemau tebyg yn cydymffurfio â'r safonau newydd.

Er mwyn helpu yn hyn o beth, diffiniwyd/cadarnhawyd cyfieithiadau safonol ar gyfer teitlau swyddi, meysydd gwasanaeth ac adrannau yn yr awdurdod, ynghyd â negeseuon cyffredin, a chadwyd cofnod ohonynt ar ein system fewnrwyd.

I gyd-fynd â'r Dyddiad Cydymffurfio, cyflwynwyd system ffôn gorfforaethol newydd. Cafodd y safonau drafft a oedd ar gael ar y pryd ddylanwad mawr ar ddylunio'r system, gan alluogi cyswllt cyntaf safonol dwyieithog ar gyfer derbyn galwadau i'n prif switsfwrdd a'n canolfannau galwadau, gan alluogi galwyr i ddewis opsiwn er mwyn siarad â gweithredwyr Cymraeg.

Caiff galwyr nad ydynt yn dewis yr opsiwn Cymraeg eu trosglwyddo i aelod o staff sy'n siarad Saesneg.

Ym mhrif ganolfan gyswllt yr awdurdod, trefnir rotâu staff er mwyn sicrhau i'r graddau y mae'n bosib fod siaradwr Cymraeg ar gael yn y dderbynfa yn ystod oriau gweithio arferol.

Yn syth ar ôl derbyn y safonau drafft, defnyddiwyd y rhwydwaith adrannol o hyrwyddwyr i hysbysu staff ac atgyfnerthu'r neges o ran eu cyfrifoldebau newydd. Mewn ymateb i'w sylwadau a'u hawgrymiadau hwy, sbardunwyd deialog gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, a pharhaodd hon yn ystod y cyfnod adrodd wrth i apeliadau ac eglurhadau fynd rhagddynt. Fel a nodwyd yn y trosolwg uchod, canlyniad y trafodaethau hyn oedd amrywio nifer o'r safonau cyflwyno gwasanaethau ar ôl y drafft cychwynnol.

5b Safonau Llundio Polisïau

Ar wahân i'r penderfyniadau mwyaf dibwys, mae holl benderfyniadau llunio polisïau yn destun Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC) corfforaethol y cyngor, sy'n ystyried yr effeithiau posib y gallai'r fenter eu cael ar faterion cydraddoldeb.

Er bod hyn yn seiliedig ar ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (o dan Deddf Cydraddoldeb (2010)), mae ein proses AEC benodol wedi ehangu'r paramedrau i gyfeirio'n benodol at y safonau a'n rhwymedigaeth i'w bodloni. Mae canllawiau atodol yn atgyfnerthu'r gofynion hyn.

5c Safonau Gweithredu

Mae safonau gweithredu'n berthnasol i faterion sy'n ymwneud â'r berthynas rhwng yr awdurdod a'i staff (gan gynnwys ***yn ystod recriwtio a phenodi***), ***trwy***:

- Annog a helpu staff i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg fel rhan o'u gwaith arferol, o ddydd i ddydd
- Darparu fframwaith cefnogol i staff er mwyn iddynt wella a datblygu eu sgiliau Cymraeg.

Ceir manylion y gweithdrefnau ar gyfer recriwtio a phenodi staff yn Atodiad Ch ac Atodiad D yr adroddiad hwn.

Mae cyrsiau sefydlu staff yn cynnwys sesiwn ar Safonau'r Gymraeg a'u goblygiadau i holl staff yr awdurdod ym mhob maes, gan gynnwys eu cyfeirio at yr wybodaeth sydd ar gael ar ein mewnrwyd ('StaffNet') a'n gweddalennau cyhoeddus.

Mae'r adran Adnoddau Dynol wedi comisiynu cyfieithiad o'r polisïau a'r gweithdrefnau hynny, fel y cyfarwyddwyd dan y safonau, ac mae'r rhain ar gael i unrhyw aelod o staff sy'n gofyn amdanynt.

Mae mynediad i feddalwedd er mwyn cefnogi staff wrth ddefnyddio'r Gymraeg (e.e. meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg MSOffice a chyfieithu awtomatig) ar gael fel ychwanegiad safonol.

Mae gan StaffNet adran am y Gymraeg sy'n cynnwys adnoddau cynorthwyol i staff sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith, gan gynnwys:

- Trosolwg o'r safonau
 - gan gynnwys gwybodaeth am rôl Comisiynydd y Gymraeg
- Cwrs ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar-lein
 - a ddatblygwyd i ddarparu peth cyd-destun cymdeithasol a hanesyddol i'r Gymraeg a'i lle yn y gymdeithas fodern.
- Canllawiau defnyddiol
 - sy'n rhoi canllawiau hwylus i faes penodol yn y safonau, e.e.
 - galwadau ffôn
 - e-byst
 - trefnu cyfarfodydd
 - dylunio arwyddion
- Cyfieithiadau safonol
 - i helpu gyda llunio gwybodaeth safonol sydd â darnau bach o wybodaeth amrywiol, e.e.
 - dyddiadau, amserau, lleoliadau
 - negeseuon awtomatig (allan o'r swyddfa)
 - arwyddion safonol *ad hoc*
- Arweiniad i gyfryngau cymdeithasol dwyieithog
 - rheolau ynghylch hyrwyddo digwyddiadau a gwybodaeth arall ar Twitter, Facebook a chyfryngau cymdeithasol eraill.
- Manylion gwersi Cymraeg a sesiynau ymarfer, gan gynnwys
 - cyrsiau allanol
 - wedi'u rhestru ar wefan <http://www.swansea.ac.uk/cy/dysgucymraeg/>
 - digwyddiadau cymdeithasol allanol rheolaidd

- drwy wefan Menter Iaith Abertawe
 - cyrsiau Cymraeg a ariennir yn fewnol
 - ar gyfer staff rheng flaen mewn adrannau lle nodwyd diffyg o siaradwyr Cymraeg yn benodol.
 - sesiynau mewnol i ymarfer y Gymraeg
 - i helpu staff i fagu hyder wrth ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg newydd neu, mewn rhai achosion, sgiliau cudd
- Manylion hyrwyddwyr y Gymraeg mewn meysydd gwasanaeth
 - enwau a manylion cyswllt ar gyfer hyrwyddwyr sy'n galluogi staff i adrodd am unrhyw broblemau, ymholiadau neu enghreifftiau o arfer da yn eu maes gwasanaeth.

Mae hyrwyddwyr y Gymraeg wedi bod yn ddefnyddiol ac yn werthfawr wrth sicrhau llif o wybodaeth ddwyffordd rhwng aelodau unigol o staff a'r canol corfforaethol a, thrwy hyn, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

5ch Safonau Hybu

Mae gwaith wedi cychwyn mewn partneriaeth â Menter Iaith Abertawe i ddatblygu'r strategaeth pum mlynedd fel sy'n ofynnol dan y safonau hyrwyddo gyda'r nod o gynyddu presenoldeb a gwelededd y Gymraeg, a'i defnydd ar draws yr ardal gyfan. Yn gyntaf, caiff darpariaeth Gymraeg bresennol (cyhoeddus a phreifat) ei mapio, gan roi cyhoeddusrwydd iddi. Yna, anogir pobl i arddangos a defnyddio posteri 'Iaith Gwaith' a, lle bo'n briodol, fathodynau a chortynnau gwddf.

Bydd y ddarpariaeth yn cynnwys grwpiau cymdeithasol, busnesau preifat, cyfleusterau cyhoeddus a chyrff eraill y gellir cael mynediad iddynt drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn y ffordd hon, ein nod yw ysgogi siaradwyr Cymraeg i ymgymryd â'u trafodion yn Gymraeg

Elfen bwysig ychwanegol i hyn yw hyrwyddo parhaus "AberDewi", sef dathliad canol y ddinas Abertawe o'r Gymraeg a diwylliant Cymreig, a gynhelir ar y penwythnos agosaf i Ddydd Gŵyl Dewi. Anogir yr holl gymunedau i gymryd rhan yn yr ŵyl sy'n amlygu'r Gymraeg fel congrfaen unigryw sy'n uno pobl Abertawe.

5d Safonau cadw cofnodion

Ffocws y safonau hyn yw dangos bod yr awdurdod yn cydymffurfio â'r safonau wrth ymdrin â data, ei gadw ac adrodd amdano. Mae hyn yn cynnwys llunio'r adroddiad blynyddol hwn.

6. Rheoli a Gweinyddu'r Cynllun

Y Tîm Rheoli Corfforaethol sy'n gyfrifol am ein cydymffurfiad â Safonau'r Gymraeg, gyda phenaethiaid gwasanaeth yn rhoi eu gweithdrefnau lleol eu hunain ar waith.

Mae hyrwyddwr y Gymraeg ym mhob maes gwasanaeth sy'n brif ffynhonnell gwybodaeth berthnasol (dwyffordd) i'w meysydd a'u harferion gwaith.

Swyddog y Gymraeg dynodedig yr awdurdod yw'r pwynt cyswllt cyffredinol ar gyfer unrhyw faterion a godir yn allanol sy'n ymwneud â'r Gymraeg, naill ai'n gyffredinol gan unigolion, gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg neu o rywle arall. Mae ef hefyd yn darparu cyngor ac arweiniad yn fewnol ar weithredu'r safonau a chydymffurfio â nhw.

Caiff gwybodaeth a phenderfyniadau pendant ynghylch y safonau eu darparu i benaethiaid gwasanaeth sy'n gyfrifol am gydymffurfio yn eu meysydd unigol hwy, yn ogystal â'r hyrwyddwyr.

Caiff cwynion a dderbynnir am y Gymraeg a/neu gydymffurfio â'r safonau eu cofnodi yn yr un ffordd ag unrhyw gŵyn arall gan y Tîm Cwynion Corfforaethol. Dylid nodi y caiff cwynion sy'n dod o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg eu prosesu'n unol â'n safonau a'n hamserlenni eu hunain, sy'n cael eu blaenoriaethu dros ein hamserau ymateb arferol (a gyhoeddir).

7. Prif ffrydio'r Gymraeg

Rhoi'r Safonau ar Waith

Mae cyflwyniad y safonau wedi annog pob adran, yn enwedig y rheiny sydd â rôl rheng flaen, i adolygu eu harferion o ran y Gymraeg. Mewn nifer o achosion, gwnaeth y ddeddfwriaeth newydd ein hysgogi i weithredu gweithdrefnau a oedd eisoes yn bodoli dan ein Cynlluniau Iaith Gymraeg yn fwy llym, gan arwain at fwy o welededd i'r iaith.

Yn ogystal, darparwyd geiriad mwy manwl yn yr hysbysiad cydymffurfio nag a oedd yn ein cynlluniau ac, felly, er y bu'n rhaid i ni ddehongli ambell safon unigol, cafwyd ymagwedd gorfforaethol fwy unedig o ganlyniad.

Yn benodol, mae cyflwyno cyfarchiad Cymraeg yn gorfforaethol dros y ffôn wedi annog galwyr i elwa o wasanaethau yn y Gymraeg ***with minimal disruption to normal switchboard operation.***

Darpariaeth Gymraeg

Mae ymwybyddiaeth gynyddol o'r safonau, mewn perthynas â chyflwyno gwasanaethau'n benodol, wedi meithrin ymagwedd fwy rhagweithiol tuag at sicrhau y caiff siaradwyr y Gymraeg eu hystyried yn ddigonol ar bob cam, o ddatblygiad i ymgynghoriad, o weithredu terfynol i adolygiad. Mae hyn yn cynnwys gwahoddiadau a deunydd hyrwyddo sy'n croesawu cyfraniadau yn y Gymraeg yn benodol a darpariaeth gynyddol o gyfieithu ar y pryd mewn digwyddiadau.

O ddydd i ddydd, mae cynnwys y Gymraeg mewn cyfarchion dros y ffôn ac ymwybyddiaeth o weithdrefnau adrannol wedi rhoi hyder i staff mewn llawer o feysydd gwahanol i ddarparu gwasanaeth drwy'r Gymraeg i'r rheiny sy'n gofyn amdano neu y mae ei angen arnynt.

Rhaedru Gwybodaeth yn fewnol

Mae sefydlu grŵp o hyrwyddwyr y Gymraeg gydag o leiaf un ym mhob maes gwasanaeth wedi cefnogi'r ymagwedd gorfforaethol hon.

Anfonir gwybodaeth ynglŷn â'r canlynol i'r grŵp hwn i'w rhaedru i'r holl staff.

- y safonau a'u gweithredu,
- ymatebion a chyfarwyddiadau gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg,
- cwynion a methiannau gwasanaeth cydnabyddedig.

Caiff penaeithiaid gwasanaeth eu cynnwys yn y broses hon er mwyn iddynt dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau a'u helpu i fonitro perfformiad yn eu hadrannau.

Cyrsiau Hyfforddiant Cymraeg a sesiynau ymarfer

Mae'r cyngor yn noddi cyrsiau Cymraeg i aelodau o staff a chynhelir sesiynau amser cinio i gynorthwyo'r rheiny sy'n dysgu (ac eraill) i ymarfer a chynnal eu sgiliau. Gweler Atodiad Ch am fwy o fanylion.

Cynhelir sesiynau galw heibio amser cinio yn wythnosol sy'n symud rhwng dau brif safle swyddfeydd y cyngor, sef Neuadd y Ddinas a'r Ganolfan Ddinesig. Er bod y rhain ar gyfer y sawl sy'n mynychu'r gwersi Cymraeg yn bennaf, croesewir pob siaradwr Cymraeg a dysgwr gan mai'r nod yw cynnig awyrgylch gefnogol er mwyn ymarfer a datblygu'r Gymraeg.

Yn wahanol i'r cyrsiau a gefnogir gan y cyngor, rhaid i staff fynd i'r sesiynau hyn yn ystod eu hamser personol. Mae hyn, ynghyd â'r anawsterau o fynychu i staff sy'n gweithio mewn canolfannau eraill, wedi golygu bod y niferoedd wedi bod yn gymharol isel. Er gwaethaf hyn, mae'r sawl sy'n mynychu, yn enwedig y rheiny sy'n dilyn cyrsiau'r cyngor, wedi cael budd mawr o'r cyfle i brofi eu sgiliau iaith.

Cortynnau Gwddf/Bathodynau

Mae ein Hysbysiad Cydymffurfio yn mynnu y dylid rhoi cortynnau gwddf a bathodynau 'laith Gwaith' i staff derbynfa sy'n siarad Cymraeg er mwyn iddynt fod yn amlwg i aelodau o'r cyhoedd. Yn yr awdurdod, fe estynnwyd hyn i unrhyw aelodau o staff a oedd yn siarad Cymraeg a oedd am eu gwisgo.

O ganlyniad, mae aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg wedi gallu adnabod siaradwyr eraill a dechrau sgysiau yn Gymraeg. Mewn rhai achosion, bu pobl yn gweithio gyda'i gilydd am flynyddoedd heb sylweddoli hyn. O ganlyniad felly, mae mwy o gyfle am sgysiau anffurfiol (ac ehangach) yn Gymraeg, gan felly normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Cyfathrebu â Staff

Er bod negeseuon canolog yn cael eu hanfon i grwpiau o staff yn Saesneg (fel y caniateir gan y safonau), mae siaradwyr Cymraeg yn cysylltu â'i gilydd yn

gynyddol drwy e-bost neu dros y ffôn yn Gymraeg. Ym mhob achos, mae'r arweiniad yn datgan bod yn rhaid i'r holl dderbynyddion ddeall yr wybodaeth sy'n cael ei throsglwyddo, yn enwedig yn achos e-byst.

Gyda negeseuon byrrach lle mae'n well gan y prif dderbynydd gyfathrebu drwy'r Gymraeg, gall cynnwys cyfieithiad neu grynodedb ar gyfer y sawl nad ydynt yn deall y Gymraeg gynnal llwybr archwilio'r e-bost heb orfod llunio esboniadau ychwanegol.

Wrth reswm, byddai unrhyw ohebiaeth â sefydliad allanol, yn y fersiwn terfynol, yn yr iaith a ffefrir gan y sefydliad ei hun. Lle mae'r Gymraeg yn ddewisol, gallai gynnwys cyfieithiad/crynodedb fod yn opsiwn. Nid yw'r safonau'n nodi yn un man fod yn rhaid i'r wybodaeth a ddarperir fod yn yr iaith a ddewiswyd yn unig.

Cyfarfodydd

Yn ystod cyfarfodydd mewnol, yn enwedig y rheiny o natur dra ffurfiol, mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd wedi'i drefnu ymlaen llaw ar gael i'r bobl sy'n bresennol sydd am gyfrannu yn Gymraeg.

Wrth gwrdd ag asiantaethau allanol sydd am drafod gyda'r awdurdod drwy gyfrwng y Gymraeg, lle bynnag y bo modd (a chyda rhybudd ymlaen llaw), byddai siaradwyr Cymraeg cymwys yn mynd i'r cyfarfod ar ran yr awdurdod er mwyn gallu cynnal cymaint o'r cyfarfod â phosib yn Gymraeg.

Gwelededd

Mae'r holl fentrau uchod wedi cynyddu a chryfhau gwelededd yr iaith ar draws y rhan fwyaf o feysydd gweithredu, gan annog ei defnydd yn anffurfiol ac mewn cyd-destun gwaith.

8. Dadansoddiad o Effaith

Dyluniwyd y Cynlluniau Iaith Gymraeg a oedd ar waith cyn 1996 yn fewnol, a chyn cytundeb â ByIG (fel yr oedd ar y pryd), ac felly roeddent yn caniatáu i wahanol adrannau ddylunio a blaenoriaethu ymagweddau i fodloni gofynion penodol eu meysydd gweithredu.

Er bod rhai meysydd wedi datblygu'r ymagweddau hyn wrth barhau i ddarparu gwasanaethau cynhwysfawr drwy'r Gymraeg, mae newid mewn meysydd cyfrifoldeb, arferion gweithredu a dyletswyddau statudol dros y blynyddoedd yn golygu nad yw'r rhain bellach yn addas at y diben mewn rhai meysydd, gan leihau'n ffocws ar gyflwyno gwasanaethau yn Gymraeg.

O ganlyniad, rhoddodd Safonau'r Gymraeg ffocws mawr ei angen ar archwilio arferion ac agweddau tuag at y Gymraeg ar draws y cyngor cyfan.

Yn ogystal, mae cylch gwaith cenedlaethol y safonau'n rheoli disgwyliadau defnyddwyr gwasanaethau'n well, wrth i'r fframwaith gorfodi a chydymffurfio diwygiedig roi mwy o bwyslais ar brofiad y defnyddiwr.

Yr Uned Gyfieithu

Cyn y dyddiad gorfodi, archwiliwyd dogfennau a oedd yn cael eu cyhoeddi i'r cyhoedd, neu a ddefnyddiwyd ganddynt, er mwyn nodi p'un a oedd angen eu diweddaru neu eu hamnewid ac, o ganlyniad, cafodd ein Huned Gyfieithu ymarfer cyfieithu/blaenoriaethu sylweddol.

Ni chyfieithwyd dogfennau prin eu defnydd neu ddogfennau a oedd ar fin cael eu diweddaru oni bai y derbyniwyd cais penodol, ac mae'r rhai o'r rhain wedi'u cadw fel fersiynau Saesneg yn unig.

Mae proffil uwch y Gymraeg yn dilyn datganiad a chyflwyniad y safonau wedi gwella prydlondeb cyflwyno gwaith i'w gyfieithu i'r Uned Gyfieithu, ac mae'r rheiny sy'n gofyn am y cyfieithiadau'n fwy ymwybodol o'r angen i ystyried amser ar gyfer y gwaith cyfieithu mewn cynlluniau i ddatblygu unrhyw ddogfennau, cyhoeddusrwydd ac adnoddau eraill perthnasol.

Er gwaetha'r gwelliant, mae nifer y ceisiadau a dderbynnir gan yr uned yn golygu, ar adegau, ei bod hi'n anodd i'r staff gwblhau'r gwaith angenrheidiol. Mae hyn yn broblem benodol yn ystod rhai adegau o'r flwyddyn pan fydd llawer o ddyddiadau cau yn cyd-daro.

Mae llwyth gwaith yr Uned Gyfieithu'n parhau i dyfu, oherwydd gofynion ychwanegol y safonau o'u cymharu â'r cynllun a'r ffaith bod mwy o adrannau'n defnyddio'r gwasanaeth nawr nad oeddent yn flaenorol.

Yn ystod 2016-17, cyfieithwyd ychydig dros bedair miliwn o eiriau gan yr Uned Gyfieithu. Mae hynny'n gynnydd o 4% o'i gymharu â 2015-16, ac ychydig yn fwy na 6% o'i gymharu â 2014–15.

Mae'r ffigurau ar gyfer cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd wedi aros yn weddol gyson dros y blynyddoedd diwethaf, gan gofnodi 84½ o oriau dros 2016-17.

9. ATODIADAU

A – Dogfennau sy'n cefnogi Safonau'r Gymraeg	14
B – Demograffeg y Gymraeg yn Abertawe	15
C – Cwynion ynghylch cydymffurdiio â'r safonau.....	17
CH – Sgiliau Cymraeg staff.....	19
D – Swyddi gwag a'r Gymraeg	22
DD – Asesiad o'r Gymraeg mewn swyddi newydd a gwag	24
E – Menter Iaith Abertawe (MIA)	33
F – Safonau Abertawe sy'n destun addasiad.....	35

Atodiad A – Dogfennau sy'n cefnogi Safonau'r Gymraeg

Mae'r safonau'n pennu ffurf gyffredinol dogfennau, ffurflenni, adroddiadau etc yn ogystal â

(i) dogfennau penodol y mae'n rhaid eu cyflwyno a'u cyhoeddi, a

(ii) gwybodaeth benodol arall i'w chadw ac, mewn rhai achosion, adrodd amdani.

Safon	Gwybodaeth	Lleoliad
94	Polisi ar grantiau	
98	Polisi mewnol	Ar gael yn fewnol ar y fewnwyd – www.swansea.gov.uk/StaffNet/welshstandards
125	Adnoddau StaffNet	Ar gael yn fewnol ar y fewnwyd – www.swansea.gov.uk/StaffNet/welshstandards
145	Strategaeth 5 mlynedd	www.abertawe.gov.uk/cymraeg
155,161,167,173,175	Rhestr o safonau	www.abertawe.gov.uk/cymraeg : Hysbysiad cydymffurfio
156,162,168	Cwynion	www.swansea.gov.uk/article/7301/Corporate-complaints-policy www.abertawe.gov.uk/article/7302/Polisi-cwynion
157,163,169	Goruchwylio/Hyrwyddo	Ar gael yn fewnol ar y fewnwyd – www.swansea.gov.uk/StaffNet/welshstandards
158,164,170	Adroddiad Blynyddol	Bydd yr adroddiad hwn ar gael (wedi cymeradwyaeth derfynol) yn www.abertawe.gov.uk/cymraeg
159,165,171	Cydymffurfio â'r safonau	www.abertawe.gov.uk/cymraeg : Rhoi'r Safonau ar Waith
147,148,149	Atodiad C yr Adroddiad Blynyddol hwn	Bydd yr adroddiad ar gael wedi cymeradwyaeth yn www.abertawe.gov.uk/cymraeg
150	Adran 5.2 yr Adroddiad Blynyddol hwn	Bydd yr adroddiad ar gael wedi cymeradwyaeth yn www.abertawe.gov.uk/cymraeg
151,152,153,154	Atodiad Ch yr Adroddiad Blynyddol hwn	Bydd yr adroddiad ar gael wedi cymeradwyaeth yn www.abertawe.gov.uk/cymraeg

Atodiad B – Demograffeg y Gymraeg yn Abertawe

Cyfrifiad 2011 – Canran Sgiliau Cymraeg yn ôl ward etholiadol

	Gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg	Gallu siarad a darllen ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg	Gallu siarad Cymraeg ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg	Gallu deall Cymraeg llafar yn unig	Cyfuniad arall o sgiliau	Dim sgiliau
<i>Llandeilo Ferwallt</i>	5.9	0.9	1.4	5.8	2.7	83.2
<i>Bonymaen</i>	6.1	0.6	2	4.7	2.1	84.5
<i>Y Castell</i>	5.3	0.7	1.3	3.2	2.4	87.2
Clydach	14.3	2	3.9	9.7	2.7	67.4
<i>Y Cocyd</i>	6.9	1.1	1.7	5.4	2.4	82.6
<i>Cwmbwrla</i>	4.8	0.6	1.1	4.6	2.4	86.4
<i>Dyfnant</i>	5	0.8	1.6	4.5	2.6	85.5
<i>Fairwood</i>	7.4	1.1	1.5	5.2	3.2	81.6
Gorseinon	8.3	1.7	2.8	8	3.2	76
<i>Gŵyr</i>	6.8	0.8	2	5.6	2.4	82.4
Tregŵyr	9.5	1.2	2.3	6.7	3.5	76.7
<i>Gogledd Cilâ</i>	7.4	0.8	1.1	3.7	2.8	84.1
<i>De Cilâ</i>	4.6	1	1.1	5.5	3	84.7
Pontybrenin	12.1	1.8	3	9.2	3.7	70.2
<i>Glandŵr</i>	4.5	0.7	0.9	3.6	1.8	88.6
Llangyfelach	13	1.3	2.5	7.4	2.5	73.3
Llansamlet	9.9	1.5	2.4	5.6	2.8	77.8
Casllwchwr Isaf	10.8	1.7	2.3	7.5	2.3	75.3
⁴ Mawr	29.3	4.4	4.5	11.1	2.8	47.9
Mayals	8.7	1.2	2	4.5	3.5	80
Treforys	8.2	1.3	2.3	5.9	2.8	79.6
<i>Mynydd-bach</i>	7.1	0.9	1.6	5.2	2.6	82.5
<i>Newton</i>	7.2	1	1.8	4.2	2.5	83.3
<i>Ystumllwynarth</i>	7.3	1	1.9	5.5	2.6	81.7
Penclawdd	8.8	2	3.8	8.9	3.9	72.6
<i>Penderi</i>	5	0.8	1.4	3.6	1.7	87.4
Penllergaer	10.2	1.9	3.1	6.7	2.3	75.9
<i>Pennard</i>	6.7	1.6	1.8	3.9	2.9	83.1
Penyrheol	9.1	2	3.8	9	3.3	72.9
Pontarddulais	22.5	3.1	5.8	11.4	2.8	54.4
<i>Sgeti</i>	8.1	1	1.6	4.7	2.6	82
<i>St. Thomas</i>	4.8	0.5	1.3	3.6	1.8	88
⁵ Townhill	3.7	0.6	1.4	3.6	1.2	89.5
<i>Uplands</i>	8.2	0.9	1.3	3.8	2.9	82.8
Casllwchwr Uchaf	11.3	1.6	3.5	9.8	3.9	69.9
<i>West Cross</i>	5.6	0.9	1.5	4.6	2.7	84.7
ABERTAWE	8.1	1.2	2.0	5.5	2.6	80.7


Wardiau lle mae sgiliau Cymraeg yn uwch na chyfartaledd Abertawe

Wardiau lle mae sgiliau Cymraeg yn is na chyfartaledd Abertawe

⁴ Canran uchaf o breswylwyr â sgiliau Cymraeg

⁵ Canran isaf o breswylwyr â sgiliau Cymraeg

Cyfrifiad 2011 – Sgiliau Cymraeg yn ôl oedran – Abertawe gyfan



Dangosir cyfartaledd poblogaeth gyfan Abertawe 3+ oed gan y llinell ddotiog



Dangosir cyfartaledd poblogaeth gyfan Cymru 3+ oed gan y llinell doredig



Atodiad C – Cwynion ynghylch cydymffurfio â'r safonau

Yn ystod y cyfnod adrodd, derbynion saith chwyn a oedd yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau dan Safonau'r Gymraeg. Dangosir y manylion **fel yr oeddent ar ddiwedd y cyfnod adrodd (31-03-2017)** yn y tabl isod. Bydd manylion y cwynion a oedd yn barhaus ar ddiwedd y cyfnod adrodd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

Cyfeirnod (lle bo'n briodol)	Cwyn	Dyddiad derbyn	Ymateb	Cam gweithredu diwethaf	Statws
	Enwau strydoedd ddim yn cael eu cyfieithu mewn hysbysiad	01. 04. 16	Hysbysodd SCG yr awdurdod fod enwau'n unieithog ac nad oedd angen eu cyfieithu	15. 04. 16	CWBLHAWYD – Dim cyfiawnhad Nid oes angen gweithredu ymhellach
	Yn anfodlon ar swm yr wybodaeth sy'n cael ei dyblygu yn y Gymraeg a'r Saesneg	21. 04. 16	Mae hyn yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a bydd yn parhau	28. 04. 16	CWBLHAWYD – Dim cyfiawnhad Nid oes angen gweithredu ymhellach
CSG054 (i)	Switsfwrdd ddim yn ateb yn Gymraeg	28. 04. 16	Methiant ar ddiwrnod cyntaf y safonau Nid oedd y system ffôn newydd yn weithredol	19. 12. 16	CWBLHAWYD – Cyfiawnhad Rhoddwyd y system newydd ar waith yn llwyddiannus ar ôl hynny, gan ddatrys achos y methiant Nid oes angen gweithredu ymhellach
(ii)	2 o 9 hysbysiad i'r cyhoedd yn cael eu cyhoeddi'n Saesneg yn unig	28. 04. 16	Paratowyd 2 o'r hysbysiadau cyn i'r safonau gael eu rhoi ar waith. Esgeuluswyd y cyfieithu cyn eu cyhoeddi.	19. 12. 16	CWBLHAWYD – Cyfiawnhad Digwyddiad unigol Ni chafodd hyn ei ailadrodd. Nid oes angen gweithredu ymhellach
(iii)	Nid oedd pyst Cymraeg yn ymddangos ar Facebook	28. 04. 16	Roedd pyst unigol yn ddwyieithog drwy ddefnyddio rhaglen gyfieithu Facebook. Methiant	19. 12. 16	CWBLHAWYD – Newidiwyd y gweithdrefnau i gyhoeddi pyst Cymraeg a Saesneg ar wahân.

			y mddangosiadol oherwydd gosodiadau ffôn y defnyddiwr.		Nid yw'r arddangosiad yn ddibynnol ar osodiad y defnyddiwr mwyach.
CSG118	Diffyg gwersi nofio drwy gyfrwng y Gymraeg	15. 09. 16	Roedd yr hyfforddwr nofio a oedd yn siarad Cymraeg wedi gadael. Gweithiwr newydd yn cael ei hyfforddi		CYFREDOL – Cyfiawnhad CYNLLUN GWEITHREDU I'W GYTUNO Â SWYDDFA COMISIYNYDD Y GYMRAEG. YN AROS AM ARWEINIAD AR GYNNWYS.
CSG156	Talu dirwy barcio ar-lein yn Saesneg yn unig	26. 10. 16	Mae'r system ar gael yn ddwyieithog. Gall fod angen clirio cwcis er mwyn talu drwy safle allanol neu bydd y system yn casglu hen ddata ac yn dangos y Saesneg	02. 11. 16	Yn aros am ymateb gan SCG. Nid oes angen gweithredu ymhellach nes derbynnir ymateb.
CS168	Llythyr atgoffa am hawlen barcio i breswylydd wedi'i hanfon yn Saesneg yn unig	07. 02. 17	Rydym wedi gofyn am fanylion gan SCG er mwyn i ni allu ymchwilio.	15. 02. 17	Yn aros am ymateb
CSG201	Ateb Saesneg yn unig i e-bost Cymraeg ei iaith	30. 03. 17	Derbyniwyd e-bost a nodwyd fel neges frys pan oedd y derbynnydd allan o'r swyddfa. Anfonwyd ymateb yn Saesneg yn unig gan y derbynnydd.	06. 04. 17	Anfonwyd yr ymateb cychwynnol i SCG. Yn aros am ymateb.

Atodiad Ch – Sgiliau Cymraeg Staff

Gofynnwyd i bob gweithiwr newydd ers 2007 am wybodaeth am ei sgiliau Cymraeg. Nid oes rhaid iddynt ddarparu'r wybodaeth hon. Yn yr un modd, nid yw'n ofynnol i unrhyw un sy'n mynegi bod ganddo sgiliau Cymraeg i ryw lefel ddefnyddio'r rhain yn ei waith.

Gall system AD yr awdurdod (Oracle) bellach gofnodi lefelau sgiliau Cymraeg ar draws y pedwar maes, sef Siarad, Deall, Darllen ac Ysgrifennu. Gall staff bellach ddiweddarau eu cofnod sgiliau Cymraeg fel rhan o'r opsiwn 'Hunanwasanaeth' ar-lein – ond er gwaethaf mentrau i ddarparu'r manylion hyn, mae'r nifer sy'n cwblhau hwn yn isel o hyd.

Mae'r data a ddarparwyd gan staff ***ac a ddelir ar y system*** yn nodi'r canlynol (yn gywir ar 31/03/2017):

[TABL A]

	Deall	Siarad	Darllen	Ysgrifennu	Dysgu	Q24 Yn fodlon defnyddio sgiliau yn y gwaith
Graddfa 2	18	9	10	8	7	12
Graddfa 3	21	12	12	12	8	14
Graddfa 4	22	14	15	10	6	17
Graddfa 5	26	20	18	15	16	26
Graddfa 6	40	25	32	18	25	27
Graddfa 7	32	30	32	26	15	26
Graddfa 8	26	19	22	17	26	28
Graddfa 9	22	19	18	16	13	17
Graddfa 10	7	5	7	5	7	7
Graddfa 11	9	5	8	4	5	6
Graddfa 12	9	6	4	3	7	5
Over 12	1	2	2	1	0	1
Totals	233	166	180	135	135	186

Mae'r broses hunanasesu yn galluogi staff i'w dosbarthu eu hunain yn un neu bob un o'r chwe chategori. Mae'r data a grynhoir yn y tabl uchod wedi'i gasglu o 426 o unigolion sydd wedi cofnodi un neu fwy o'r sgiliau Cymraeg.

O hyn, ymddengys fod sgiliau Cymraeg ar gael yn weddol gyfartal ar draws lefelau amrywiol gweithwyr fesul gradd.

Dyma'r ffigurau cyffredinol ar gyfer pob adran:

[TABL B]

Adran	Deall	Siarad	Darllen	Ysgrifennu	Dysgu	Q24 Willing to use in the Course of Your Work
Gwrth-tlodi ac Atal	16	13	17	11	17	18
Lleoedd	105	78	85	68	53	79
Addysg	31	14	12	9	15	19
Gwasanaethau Cymdeithasol	48	37	40	28	31	52
Trawsnewid	33	24	26	19	19	18

Dyma'r ffigurau cyfanswm ar gyfer pob adran:

[TABL C]

Adran	Cyfrif pennau	Canran y staff sydd wedi cofnodi sgiliau	Nifer y staff sydd wedi cofnodi sgil(iau)	Nifer y staff sy'n fodlon defnyddio'r sgiliau hyn yn y gwaith	Canran y staff sydd wedi cofnodi sgiliau sy'n fodlon eu defnyddio yn y gwaith.
Gwrth-tlodi ac Atal	334	10.18%	34	18	52.94%
Lleoedd	2657	6.25%	166	79	47.59%
Addysg	1114	6.37%	71	19	26.76%
Gwasanaethau Cymdeithasol	1701	5.88%	100	52	52.00%
Trawsnewid	703	7.82%	55	18	32.73%
CYFANSWM	6509	6.54%	426	186	43.66%

Mae nifer isel/canran y staff sydd wedi cofnodi unrhyw sgiliau Cymraeg yn cynnwys y rhai nad oes ganddynt sgiliau i'w cofnodi ond sydd wedi darparu eu 'data cydraddoldeb' beth bynnag.

Os yw gweithlu'r awdurdod yn adlewyrchu demograffeg iaith leol, byddai hyn yn cynrychioli cyfradd gwblhau gyffredinol gan 25%-30% o'r staff. I greu mwy o hyder yn y data a gofnodir, byddwn yn ymgymryd ag ymarfer i annog staff ymhellach i ddarparu manylion.

Eitem arall sy'n dod i'r amlwg o'r ffigurau yw mai ychydig dros 2 o bob 5 gweithiwr yn unig y mae ganddynt sgiliau Cymraeg sy'n fodlon eu defnyddio yn y gwaith. Er ei fod yn bosib nad yw lefelau sgiliau rhai

unigolion yn ddigonol neu'n briodol i'w defnyddio mewn lleoliad gwaith, mae hyn yn awgrymu bod cronfa botensial o sgiliau Cymraeg y gellid eu defnyddio petai'r rhai nad ydynt yn fodlon eu defnyddio ar hyn o bryd yn cael eu hannog a'u cynorthwyo.

Fel y crybwyllwyd yn Adran 6 yr adroddiad hwn, ***mewn menter arall*** i mynd i'r afael â'r diffyg cydnabyddedig o staff sy'n siarad Cymraeg mewn rhai meysydd gweithredu, mae'r awdurdod wedi noddi cyrsiau Cymraeg Mynediad/Sylfaenol i staff. Mae'r tiwtoriaid ym Mhrifysgol Abertawe, sef hwb lleol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Ceir manylion y cyrsiau sydd ar gael, niferoedd y myfyrwyr a phresenoldeb ar y cyrsiau hyn yn Atodiad Ff.

Mae trafodaethau ar y gweill â darparwyr i sicrhau parhad darpariaeth, gan gynnwys cyrsiau dilynol a chyrsgwyr ar gyfer dysgwyr newydd.

Yn ogystal â'r cyrsiau Cymraeg, rydym wedi ailwampio'n cwrs Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar-lein. Fe'i hargymhellir i reolwyr ac eraill a fyddai'n elwa o wybodaeth gefndirol am hanes lleol a chenedlaethol, demograffeg a chyd-destun cymdeithasol yr iaith nad oes angen sgiliau Cymraeg penodol arnynt.

Atodiad D – Swyddi Gwag a'r Gymraeg

Rhaid asesu gofynion Cymraeg unrhyw swydd newydd neu wag cyn ei hysbysebu, ac mae'n rhaid i'r asesiad ddynodi'r swydd fel un o'r canlynol:

- a) Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol,
- b) Mae angen dysgu Cymraeg ar ôl penodiad i'r swydd,
- c) Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol, neu
- ch) Nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol.

Rhaid cadw copi o'r holl asesiadau.

Mae'n rhaid i bob swydd yn grwpiau a), b) ac c) uchod gael ei hysbysebu'n ddwyieithog.

Ymgwymerir â'r broses o ddynodi swyddi newydd a gwag yn unol â'r asesiad a amlinellir yn Atodiad Dd (isod)

Yn ystod cyfnod 2016-17, cofnodwyd nifer y swyddi a hysbysebwyd yn y pedwar categori uchod a gweler y cyfanswm isod:

Swyddi a hysbysebwyd lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol.	5
Swyddi a hysbysebwyd lle mae angen dysgu sgiliau Cymraeg ar ôl penodiad i'r swydd.	0
Swyddi a hysbysebwyd lle mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol.	742
Swyddi a hysbysebwyd lle nad yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol.	1
CYFANSWM Y SWYDDI A HYSBYSEBWYD	748

Ar hyn o bryd, caiff y rhan fwyaf o swyddi eu hysbysebu'n fewnol i staff yng nghronfa adleoli'r awdurdod a allai, fel arall, gollu eu swyddi.

Mae'r ffigurau uchod yn cynnwys y swyddi hynny a lenwyd o'r gronfa adleoli yn ogystal â'r rhai a hysbysebwyd yn allanol i'r cyhoedd.

Atodiad Dd – Aseiad o'r Gymraeg mewn Swyddi Newydd a Gwag

Mae'r atodiad hwn yn amlinellu'r broses o asesu gofynion y Gymraeg mewn rolau gwag a newydd. Gan mai dogfen fewnol yw hon, mae'r wybodaeth ar gael yn y Saesneg yn unig.



WELSH LANGUAGE SKILLS ASSESSMENT

GUIDANCE FOR MANAGERS IN DETERMINING LANGUAGE LEVEL

1. WHICH WELSH LANGUAGE SKILLS ARE NEED FOR WHICH JOBS AND TEAMS

1.1 Jobs for which bilingual skills are ESSENTIAL

These are usually jobs where the employee needs to be able to speak “everyday Welsh” fluently with individuals. From time to time, the ability to write fluently in Welsh will be needed. The Skills Framework allows for differentiation between spoken and written skills’ for example, some jobs may require the former but not the latter.

Being fluent generally refers to Level 3 or above in the Skills Framework. Level 3 is the lowest level of fluency suitable for jobs where Welsh is considered essential. Ideally, however, Levels 4 or above are the most appropriate levels in terms of ability to use Welsh effectively.

Work that involves contact with the public and is **performed individually** by a single person requires Level 3 or above in order to provide an effective bilingual services, orally and written, without any delay or inconvenience for the individual.

Work that involves contact with the public and is performed as **part of a team**, with all team members generally performing the same duties or undertaking similar work, requires sufficient numbers of team members with Level 3 or above. Arrangements must be made to ensure that these workers are available to provide an effective Welsh Language service as required, without any delay or inconvenience to the individual.

1.2 Jobs for which bilingual skills are DESIRABLE

If bilingual skills are not essential for a job, you may still decide that the ability to communicate effectively in English and Welsh is desirable. How much emphasis you place on this will vary from post to post. Below are examples of criteria for laying greater emphasis on making bilingual skills desirable;

- Where it would be advantageous when providing a service for Welsh speakers, in settings where Welsh-speaking staff are already available, but where having an additional Welsh speaker would strengthen bilingual provision.
- Where it would strengthen the administrative support available to staff who use the Welsh language.
- Where it would help a team or workplace respond to the need to write short pieces of Welsh, or simple translations.
- Where it would enhance the Welsh ethos or climate of a team or workplace and help increase and normalise use of Welsh in the workplace.

2. ASSESSING AND RECORDING YOUR WORKFORCE LANGUAGE SKILLS

- 2.2 A Language Skills Framework (see Appendix A) is a way of easily assessing language skills based on the types of communication tasks (reading, writing, speaking and understanding) which the workforce are able to undertake in Welsh.
- 2.2 The Language Skills Framework will help managers to be clear about the exact skills levels that they need to refer to when assessing, recruiting and planning their workforce skills. This will also help managers to decide which level of skill is required in terms of speaking, understanding, writing or reading Welsh.
- 2.3 The Job Description should clearly state the level of Welsh required for the post (see Appendix B).
- 2.3 All posts must be advertised at a minimum of Level 1 for spoken and written Welsh.
- 2.4 When considering the level of Welsh required to undertake a post ask the following questions. If you answer 'yes' to any of the questions, you will need to consider what level of Welsh (according to the Language Skills Framework – see Appendix A) an individual would need to manage that contact:
- Does the role have contact with members of the public and/or other Council stakeholders (i.e. community groups, other public sector, private sector, town and community councils etc.), either face to face or over the phone?
 - Does the role have contact with children and young people, vulnerable individuals of any age or those in a care setting?
 - Does the role have contact with Elected Members?
 - As part of the role, does the post holder directly work or liaise with Welsh medium educational establishments?
 - Does the role require Welsh spoken skills to fulfil any other requirements of the job?
- 2.5 Posts should always be advertised at the appropriate level of language skill.
- 2.6 There may be circumstances where an otherwise suitable candidate does not reach the specified Welsh language level. In such instances, and providing that there is an existing level of Welsh language skill within the team, consideration can be given to appointing that candidate. The offer of appointment would be conditional on the candidate agreeing to achieve the required language level within a prescribed period. The individual would then be offered the appropriate learning and development programme to support them in attaining the required level. On such occasions, advice should always be sought from HR & OD before any offer of appointment is made.

LANGUAGE SKILLS FRAMEWORK

LEVEL 1			
<p><i>Can understand basic everyday phrases if the speaker talks slowly and clearly and is willing to help. Can introduce yourself and others and can ask and answer questions regarding basic information, e.g. where someone lives; what they like doing. Can pass on a simple message or make a straightforward request, e.g. via e-mail.</i></p>			
UNDERSTANDING	SPEAKING	READING	WRITING
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Can understand simple personal information details; e.g. where someone lives, his/her name, who the person wishes to see 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Can pronounce place names and personal names correctly. ➤ Can greet individuals face to face or over the phone ➤ Can open and close a conversation or open and close a meeting. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Can read short sentence, e.g. basic signs, simple instructions, agenda items, simple information on forms 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Can open and close an e-mail or letter ➤ Can write personal names, place names, job titles ➤ Can write a simple message to a colleague on paper or e-mail, e.g. such and such has called.
LEVEL 2			
<p><i>Can understand sentences when people talk about everyday situations, e.g. simple personal and family information. Can hold a basic conversation with someone to obtain or exchange straightforward information, e.g. discuss how a person is feeling; something which has happened; simple plan for the future. Can write and read messages in letters or e-mails describing familiar issues and written in short sentences.</i></p>			
UNDERSTANDING	SPEAKING	READING	WRITING
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Can understand when people speak slowly about everyday situations, e.g. providing personal information, talking about what they have been doing, what they would like to do, how they feel general ➤ Can understand when people ask you do something 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Can communicate simple information or ask common questions, e.g. to acquire information from an individual ➤ Can use Welsh to get to and emphasise with the individual but not able to conduct the entire conversation or session in Welsh ➤ Can hold a short conversation with an individual or exchange relatively straightforward information ➤ Can contribute to a meeting, but need to revert to English for specialist terms. ➤ 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Can read short message and certain letters or e-mails, e.g. those which make a request or ask you to pass on a message 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Can write a short message to a colleague asking a question, thanking her/him, explaining something, e.g. time and place of a meeting ➤ Can write a short letter or e-mail to arrange an appointment

LEVEL 3

Can understand the main points when an individual or colleague is talking about familiar subjects, e.g. during a conversation or small group meeting. Can hold extended conversations with fluent speakers about familiar subjects involving everyday work. Can describe experiences and events and provide concise explanations and reasons for opinions and plans. Can read articles, letters or e-mails about general subjects. Can write letters or e-mails about most subjects, e.g. requesting something; providing information; inviting somebody or organising an event.

UNDERSTANDING	SPEAKING	READING	WRITING
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Can understand individuals and colleagues when exchanging information or discussing plans, if the subject is familiar. ➤ Can understand a discussion at a meeting if the subject is familiar. ➤ Can understand individuals and colleagues in a familiar situation or in everyday conversation. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Can take part in most conversations with colleagues about work and plans if the vocabulary is not too technical. ➤ Can hold a conversation with an individual or exchanging relatively straightforward information. ➤ Can contribute to a meeting but need to revert to English for specialist terms. ➤ Can adapt the style of language to suit the audience. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Can understand most e-mail messages or letters concerning day to day work. ➤ Can guess the meaning of a word based on context if the subject is familiar. ➤ Can read a simple, straightforward article in a newspaper or magazine types of written material. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Can write a letter or e-mail to an individual, or colleague about most topics in order to request something; provide an explanation; describe an experience or situation; invite people or organise an event. ➤ Can write relatively accurately when drafting a short information leaflet or information Welsh as required.

LEVEL 4

Can usually follow most conversations or discussions, even on unfamiliar topics, unless the speaker has a strong or unfamiliar accent. Can talk confidently with fluent speakers about familiar subjects relating to work, and can express an opinion, take part in discussion, and talk extensively about general topics, e.g. in meetings or one-to-one situations with individuals. Can understand most correspondence, newspaper articles and reports intended for fluent speakers with the aid of a dictionary and can scan long texts to find details. Can complete forms and write reports relating to work and respond accurately to.

UNDERSTANDING	SPEAKING	READING	WRITING
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Can follow most conversations and discussions with individuals or colleagues even if the subject matter is unfamiliar. ➤ Can understand differences in register and dialect. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Can contribute effectively to internal and external meetings in a work context. ➤ Can converse comfortably with individuals and exchange information as required. ➤ Can argue for and against a specific case. ➤ Can chair meetings and answer questions from the chair confidently. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Can read most correspondence and scan long texts to find details. ➤ Can understand most newspaper articles and reports with the aid of a dictionary. ➤ Can understand novels and other texts, unless written in a very formal or colloquial form. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Can produce correspondence of all types, short reports, documents and literature with support of an editor or electronic aid.

LEVEL 5

Can understand everything that is being said. Can talk extensively about complex issues, presenting difficult information and can facilitate and summarise extended or complex discussions. Can summarise information from different sources (orally and in writing) and present it in a coherent way. Can express themselves spontaneously, fluently and in details, adapting the language to suit the audience.

UNDERSTANDING	SPEAKING	READING	WRITING
<ul style="list-style-type: none">➤ Can follow all conversations and discussions with individuals or colleagues.➤ Can understand the ambiguity and nuance of language.	<ul style="list-style-type: none">➤ Can express yourself fully in detail, even when discussing complex issues.➤ Can adapt the style and register of your language to suit the audience.	<ul style="list-style-type: none">➤ Can read and understand almost all written texts without difficulty, referring to a dictionary occasionally.➤ Can read long texts to find relevant details and can understand most types of written material.	<ul style="list-style-type: none">➤ Can write reports in a clear style appropriate to the reader with the support of electronic language aids.➤ Can write formal or informal Welsh as required.➤ Can write a range of documents accurately and with confidence.



PERSON SPECIFICATION

(detholiad / extract)

WELSH LANGUAGE:	The Authority is committed to delivering an equally high quality service in Welsh and English and will support staff in providing this. Please see below for the requirements for this post.			
	Essential	Must be Learned	Desirable	Not Essential
	<p>Essential could cover a wide spectrum, i.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ from conversing with members of the public and signposting them to other Services and ➤ to be able to present detailed arguments in court proceedings <p>An indication of the precise requirement should be included.</p>			
EVIDENCE	At interview, then in post			
ASSESSMENT OF POSTS	All advertised posts have to be assessed in respect of the Welsh Language requirements. The evidence of which has to be retained and available for (a) audit trail and (b) inclusion in annual report figures.			
JUSTIFICATION FOR CONFIRMING POST AT THAT LEVEL OF WELSH REQUIRED				

Atodiad E – Menter Iaith Abertawe (MIA)

Sefydlwyd Menter Iaith Abertawe yn 2001. Ei nod yw hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i ehangu yn Ninas a Sir Abertawe. Dyma ei datganiad o genhadaeth:

- *“Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg gan bobl o bob oedran, cefndir ac iaith yn nalgylch Dinas a Sir Abertawe a gwneud y Gymraeg yn gyraeddadwy i bobl Abertawe”*
- *“To promote the use of the Welsh language by people of all ages, backgrounds and languages in the catchment area of the City and County of Swansea and make the Welsh language accessible to the people of Swansea”.*

I'r diben hwn, mae'n darparu cyfleoedd i bobl yn Abertawe ddefnyddio'r Gymraeg, cyfleoedd i'r rheiny sy'n dysgu'r Gymraeg ddatblygu eu sgiliau, hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ar draws sectorau statudol a gwirfoddol yn Abertawe a chynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymhlith preswylwyr yr ardal.

Mae'r awdurdod yn cydnabod bod rhai meysydd gweithredu nad yw'n gallu ymgymryd â nhw drwy'r Gymraeg ar hyn o bryd. Er mwyn bodloni'n cyfrifoldebau yn sgîl cyflwyno'r Safonau (a chyn hynny, ein Cynllun Iaith Gymraeg), mae rhai o'n hadrannau wedi gweithio mewn partneriaeth â MIA, gyda'r nod o ddatblygu darpariaeth fewnol dros amser.

Lle bo'n briodol, mae rhai o staff MIA wedi cyflawni hyfforddiant a chymwysterau ochr yn ochr â staff yr awdurdod lleol i hwyluso darpariaeth gwasanaeth Cymraeg cyfatebol i'r gwasanaeth Saesneg presennol. Lle bo'n briodol, maent hefyd wedi cael mynediad i system TG berthnasol y cyngor a systemau eraill er mwyn gallu cyflwyno gwasanaeth di-dor a chyson heb ragfarn ieithyddol iddo.

Wrth i unrhyw fenter sy'n ymdrin â'r cyhoedd gael ei datblygu, ac yn enwedig wrth gynnal ymgynghoriad, caiff gwybodaeth ddwyieithog ei hanfon yn gyson i MIA er mwyn iddynt allu ei hanfon ymlaen drwy ei rhestrau dosbarthu safonol. Mae hyn yn helpu i sicrhau y caiff y gymuned Gymraeg ei chynrychioli'n gryf mewn ymarferion o'r fath.

Ar gyfer mentrau mawr a mentrau eraill y gallai fod agwedd Gymraeg benodol yn berthnasol iddynt, gall MIA gael ei gwahodd i ddarparu ei harbenigedd a'i chyngor i sicrhau bod yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb cysylltiedig yn adlewyrchu anghenion siaradwyr Cymraeg yr ardal.

Fel prif gyswllt i siaradwyr Cymraeg yr ardal, gofynnwyd i MIA gynorthwyo'r cyngor i lunio'r cynllun pum mlynedd â sail gymunedol i hybu'r Gymraeg yn y gymuned.

I ddechrau, bydd hyn yn cymryd ffurf gofyn i'r rheiny sydd ar restrau dosbarthu MIA, grwpiau cysylltiedig a chysylltiadau eraill am wybodaeth am eu profiadau o fentrau

Cymraeg (e.e. gweithgareddau, grwpiau, adeiladau a chyfleusterau eraill) ar draws yr awdurdod lleol yn ei gyfanrwydd er mwyn cael gwaelodlin o weithgareddau drwy'r Gymraeg.

Caiff y gweithgareddau a nodir eu mapio a bydd yr wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd, gan roi'r cyfle i breswylwyr ac eraill ryngweithio â siaradwyr Cymraeg ar draws yr ystod gyflawn o weithgareddau a nodwyd. Bydd yr ymarfer mapio hwn hefyd yn cynnig cyfle i nodi meysydd â darpariaeth Gymraeg isel a mynd i'r afael â nhw.

Atodiad F – Safonau Abertawe sy'n destun addasiad

Derbyniwyd yr Hysbysiad Cydymffurfio gwreiddiol a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg gan yr awdurdod ar 30-09-2015, gyda dyddiadau gweithredu o 30-03-2016 (ac nid cyn hynny) a 30-09-2016.

Nid oedd pob safon (a weithredwyd fel Rheoliadau gan y CCC) yn berthnasol i'r awdurdod, yn rhannol oherwydd lluniwyd rhai safonau mewn grwpiau i ddarparu ystod o weithgareddau'n seiliedig ar ddemograffeg a phrofiad lleol. Roedd y safonau nad oeddent yn berthnasol i'r awdurdod fel a ganlyn: 10, 18, 23, 24B, 25, 26B, 27B, 27C, 27CH, 28, 29B, 39, 40, 53, 54, 65, 65A, 66, 113, 117, 121, 123 a 138

Ar ôl eu derbyn, apeliwyd yn erbyn rhai agweddau ar safonau unigol, a chafwyd deialog gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ynghylch eu ffurf derfynol o ganlyniad. Gwrthodwyd rhai apeliadau, ac arweinodd eraill at addasu'r safon(au) dan sylw.

Mae'r Hysbysiad Cydymffurfio terfynol yn cynnwys addasiadau yn erbyn 10 safon unigol, fel yr amlinellir isod. Mae hyn yn cynnwys rhai lle'r oedd addasiadau eisoes wedi'u nodi yn ein hysbysiad gwreiddiol. Yn ogystal, dilëwyd dwy safon (#2 a #3) yn unochrol o'r Hysbysiad Cydymffurfio gan Swyddfa'r Comisiynydd.

	Safon Gyhoeddedig	Addasiad
2	Roedd Safonau 2 a 3 yn ymwneud â dechrau gohebiaeth gydag unigolyn neu aelwyd, a chadw cofnod o'i iaith o ddewis.	
3	Cafodd y rhain eu cynnwys yn nrafft cyntaf yr Hysbysiad Cydymffurfio a anfonwyd i'r awdurdod ond fe'i dilëwyd gan y Comisiynydd o fersiwn olaf (a gweithredol) yr Hysbysiad Cydymffurfio.	
21	Pan fyddwch yn ffonio unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrthyich yn Gymraeg; ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a chynnal galwadau ffôn a wneir i A o hynny ymlaen yn Gymraeg.	<i>Rhaid cydymffurfio â safon 21 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</i> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Ile bo'n angenrheidiol i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg ddarparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a</i> • <i>Ile nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.</i>
33	Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg - (a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.	<i>Rhaid cydymffurfio â safon 33 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</i> <i>- pan fo gwahoddiad neu hysbyseb i'r cyfarfod wedi gofyn i bersonau eich hysbysu a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, a bod dim un person wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.</i>
38	Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn	<i>Rhaid cydymffurfio â safon 38 ymhob amgylchiad, ac eithrio ble bo'r isod yn gymwys:</i> <i>(1) Nid yw'n ofynnol i gorff gyfieithu i'r</i>

	Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	<i>Gymraeg unrhyw destun nad yw wedi ei lunio ("testun A"). (2) Ni fydd corff yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol os nad yw'n cyfieithu testun A i'r Gymraeg ond gweler is-baragraff (3). (3) Rhaid i gorff ddefnyddio'r fersiwn Gymraeg o destun A os yw person arall wedi llunio testun A yn Gymraeg yn unol— (a) â'i Gynllun Iaith Gymraeg; (b) â dyletswydd i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg; (c) â Rheolau Sefydlog y Cynulliad; (ch) ag adran 35(1C) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; neu (d) â Chynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad.</i>
41	Os byddwch yn llunio'r dogfennau a ganlyn rhaid ichi eu llunio yn Gymraeg - (a) agendâu, cofnodion a phapurau eraill sydd ar gael i'r cyhoedd, sy'n ymwneud â chyfarfod o fwrdd rheoli neu gabinet; (b) agendâu, cofnodion a phapurau eraill ar gyfer cyfarfodydd, cynadleddau neu seminarau sy'n agored i'r cyhoedd.	<i>Rhaid cydymffurfio â safon 41 (a) ymhob amgylchiad, ac eithrio: <input type="checkbox"/> papurau eraill sydd ar gael i'r cyhoedd yn ymwneud â chyfarfod o fwrdd rheoli neu gabinet. Rhaid cydymffurfio â safon 41 (b) ymhob amgylchiad, ac eithrio: <input type="checkbox"/> papurau eraill ar gyfer cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd.</i>
42	Rhaid i unrhyw drwydded neu dystysgrif yr ydych yn ei llunio gael ei llunio yn Gymraeg.	<i>Rhaid cydymffurfio mewn perthynas â thrwydded neu dystysgrif a gyhoeddir ymhob amgylchiad. Rhaid cydymffurfio mewn perthynas â thrwydded neu dystysgrif a roddir i berson, ac na chaiff ei gyhoeddi yn yr amgylchiadau canlynol: a) pan fyddwch wedi cynnig llunio'r drwydded neu dystysgrif yn Gymraeg i berson, a b) pan fo'r person hwnnw wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno derbyn y drwydded neu dystysgrif yn Gymraeg.</i>
64	Rhaid i unrhyw wasanaeth derbynfa yr ydych yn ei roi ar gael yn Saesneg hefyd fod ar gael yn Gymraeg, a rhaid i unrhyw berson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg beidio â chael ei drin yn llai ffafriol na pherson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg.	<i>Rhaid cydymffurfio â safon 64 mewn perthynas â'r isod erbyn 30 Mawrth 2016: • Prif wasanaeth derbynfa'r corff Rhaid cydymffurfio â safon 64 mewn perthynas â'r isod erbyn 30 Medi 2016: • Pob gwasanaeth derbynfa arall.</i>
67	Rhaid ichi arddangos arwydd yn eich	<i>Rhaid cydymffurfio â safon 67 mewn</i>

	derbynfa sy'n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa.	<p><i>perthynas â'r isod erbyn 30 Mawrth 2016:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Prif wasanaeth derbynfa'r corff</i> <p><i>Rhaid cydymffurfio â safon 67 mewn perthynas â'r isod erbyn 30 Medi 2016:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Pob gwasanaeth derbynfa arall.</i>
76	Rhaid i unrhyw wahoddiadau i dendro am gontract yr ydych yn eu cyhoeddi gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o unrhyw wahoddiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.	<p><i>Rhaid cydymffurfio â safon 76 yn yr amgylchiadau isod:</i></p> <p><i>(a) os yw pwnc y gwahoddiad i dendro am gontract yn awgrymu y dylid ei gyhoeddi yn Gymraeg, neu</i></p> <p><i>(b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid cyhoeddi'r gwahoddiad yn Gymraeg.</i></p>
84	Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg.	<p><i>Rhaid cydymffurfio â safon 84 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</i></p> <p><i>- pan fo asesiad a gynhaliwyd yn unol â safon 86 yn dod i'r casgliad nad oes angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg.</i></p>
137A	Os byddwch yn cyhoeddi— (a) ffurflenni cais am swyddi; (b) deunydd esboniadol ynghylch eich proses ar gyfer ymgeisio am swyddi; (c) gwybodaeth am eich proses gyfnewid, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi; (ch) swydd-ddisgrifiadau; rhaid ichi eu cyhoeddi yn Gymraeg a rhaid ichi sicrhau nad ydych yn trin unrhyw fersiynau Cymraeg o'r dogfennau yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg ohonynt.	<p><i>Rhaid cydymffurfio â safon 137A ymhob amgylchiad, ac eithrio:</i></p> <p><i>- swydd ddisgrifiadau pan fo'r swydd wedi ei chategoreiddio fel un lle nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.</i></p>

Atodiad Ff – Cyrsiâu Hyfforddiant Cymraeg

Caiff cyrsiau hyfforddi mewnol eu hysbysebu i staff ar fewnwyd yr awdurdod – StaffNet.

Gellir gofyn am le ar unrhyw gwrs newydd ei ddatblygu ers cyflwyno Safonau'r Gymraeg naill ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Mae cyflwyno unrhyw gyrsiau'n ddibynnol ar nifer digonol o staff yn tanysgrifio cyn y trefnir y cwrs, a defnyddir yr ymagwedd hon ar gyfer cyrsiau a gyflwynir trwy gyfrwng y Saesneg a'r Gymraeg fel ei gilydd.

Yn ystod y cyfnod adrodd, nid oes unrhyw aelodau o staff wedi gofyn am gyrsiau hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r awdurdod wedi darparu gwersi Cymraeg sylfaenol wedi'u cymorthdal yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r cyrsiau'n dilyn y cwrs lefel fynediad. Mae rhai aelodau o staff sydd wedi mynychu lefel 1 (neu gyfwerth) wedi dilyn rhan lefel 2 o'r cwrs.

Roedd y cyrsiau ar waith o hyd ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Ceir manylion y myfyrwyr a phresenoldeb yn y tabl isod.

Lefel	Dyddiad dechrau	am/pm	Nifer o wersi hyd yma	Nifer ar y cwrs	Cyfanswm y presenoldeb disgwylidig	Cyfanswm y presenoldeb gwirioneddol	Canran y presenoldeb
1	9/11/16	am	18	16	288	237	82%
1	9/11/16	pm	18	16	288	243	84%
1	5/01/16	am	13	17	221	180	81%
	ISGYFANSWM			49	797	660	83%
2	5/01/16	pm	13	7	91	61	67%
	ISGYFANSWM			7	91	61	67%
	CYFANSWM			55	888	721	81%

Bydd gwerthusiad yn dilyn gyda'r bwriad o barhau â'r ddarpariaeth hon a chefnogi'r rhai sydd wedi cwblhau cyrsiau i gynnal y sgiliau maent wedi'u dysgu.

Gall cyrsiau yn y dyfodol newid yn unol â menter 'CymraegGwaith' y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg ac unrhyw gytundeb rhwng yr awdurdod a'r darparwr lleol.